# Dechrau Ysgol Uwchradd



**Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin**

# GWYBODAETH GYFFREDINOL

## Sut y caiff dosbarthiadau eu ffurfio?

Gosodir y plant i bum dosbarth cyfartal eu maint, cymysg eu gallu, ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Gwneir hyn ar sail cyngor prifathrawon ac athrawon yr ysgolion cynradd o fewn y dalgylch ynghyd ag ystyriaeth i'r galw am gymorth addysgol unigol. Wrth drefnu dosbarthiadau cofrestru Blwyddyn 7, dealla'r ysgol ddymuniad disgyblion i gael eu gosod mewn dosbarth gyda'u cylch ffrindiau ac fe fydd y Pennaeth Blwyddyn yn ceisio ymateb i'r ceisiadau hynny. Er hyn, rhaid i rieni a disgyblion fod yn ymwybodol na fydd hyn yn bosibl ar bob achlysur yn enwedig wrth ystyried agweddau addysgiadol a'r nifer o ddisgyblion sydd yn trosglwyddo o'r cynradd yn y flwyddyn honno.

## Pa bynciau fydd fy mhlentyn yn astudio?

Bydd eich plentyn yn astudio y pynciau canlynol yn ystod Blwyddyn 7:

- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg); Dyniaethau (Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol); Celfyddydau Mynegiannol (Cerddoriaeth, Celf, Drama); Mathemateg a Rhifedd; Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Gwyddoniaeth, Technoleg Gwybodaeth, Dylunio a Thechnoleg; Iechyd a Lles (Addysg Gorfforol, Lles, ABCh).

Yn ogystal, neilltuir un wers y bythefnos i ddilyn cwrs o weithgareddau Addysg Bersonol a Chymdeithasol ynghyd ag un wers Iechyd a Lles.

## Sut fydd fy mhlentyn yn cael ei asesu?

Ar ddechrau'r flwyddyn bydd y disgyblion yn cael eu hasesu er mwyn darganfod eu hanghenion addysgiadol. Bydd yr athrawon yn asesu gwaith y plant yn gyson trwy'r flwyddyn, trwy waith cartref, gwaith dosbarth a phrofion. Bydd cyfle i chi drafod gwaith eich plentyn mewn cyfarfod rhieni yn ystod y flwyddyn a darperir adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd tymor yr haf.

## Sut fydd fy mhlentyn yn cofnodi tasgau dyddiol a gwaith cartref?

Bydd trefnydd personol yn cael ei ddarparu ar gyfer pob disgybl ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Nid oes tâl am y trefnydd. Ers mis Medi 2023, mae'r ysgol yn defnyddio system ddigidol newydd o'r enw Edulink One sy'n gweithredu fel trefnydd digidol i ddisgyblion, yn gofnod ar gyfer tasgau gwaith cartref gan athrawon. Bydd hefyd yn ffordd o gadw mewn cysylltiad dyddiol gyda rhieni o ran ymddygiad a phresenoldeb. Gellir lawrlwytho ap a gyfer y system sy'n ffordd gyflym a hygyrch o dderbyn gwybodaeth am eich plentyn e.e. teithiau, gwaith cartref ac adroddiadau diwedd tymor. Bydd cyfrifon ar gael i ddisgyblion a rhieni a bydd manylion yn cael eu rhannu gyda chi yn y tymor newydd.

## Beth am waith cartref?

Gall maint y gwaith cartref a osodir yn yr ysgol uwchradd ddod fel sioc i ddisgyblion. Ym Mlwyddyn 7, efallai y bydd disgwyl i'ch plentyn dreulio rhwng 45 – 60 munud y dydd arno.

Gallwch helpu eich plentyn gyda'r gwaith cartref trwy:

- wirio Edulink i weld beth yw'r gwaith sydd angen gwneud.
- ddyrannu amser i ffwrdd o'r teledu ar gyfer gwaith cartref.
- helpu i ddod o hyd i drefn gwaith cartref sy'n addas i'ch plentyn.
- siarad gyda'ch plentyn am y dasg.
- wirio a llofnodi trefnydd personol eich plentyn yn wythnosol.
- annog i'ch plentyn i ddefnyddio adnoddau amrywiol: llyfrgell / y rhyngrwyd / clwb gwaith cartref amser cinio yr ysgol: pa un bynnag sydd orau gan eich plentyn.
- ganmol eich plentyn am weithio'n galed.
- wneud yn siŵr bod eich plentyn yn cael rhywfaint o amser rhydd o waith cartref bob wythnos.
- siarad â'r ysgol am unrhyw fater yn gysylltiedig gyda gwaith cartref eich plentyn.
- wirio tasgau sy'n cael eu rhannu ar Google Classroom.

## Cyfrwng Iaith

Hoffwn eich atgoffa mai'r Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. **Disgwylir i'r disgyblion siarad Cymraeg â'i gilydd ar bob cyfle. Mae'n rhan o reolau'r ysgol y dylid siarad Cymraeg yn gymdeithasol, yn y dosbarth ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.**

## Sut gallaf gadw mewn cysylltiad gyda'r ysgol?

Unwaith mae eich plentyn yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd mae'n bosib y byddwch yn teimlo yn fwy ynysig ac allan o gyswllt gyda rhieni arall a'r ysgol. Gallwch gadw mewn cysylltiad a darganfod mwy am ddigwyddiadau o ddydd i ddydd yr ysgol trwy:

- lawrlwytho a gwirio ap Edulink. Mae'r manylion mewngofnodi wedi eu rhannu gyda chi drwy e-bost er mwyn i chi allu cofrestru eich cyfrif. *Byddwn yn cyflwyno system newydd yn lle Edulink yn ystod Tymor yr Hydref, sef Bromcom. Cewch fwy o wybodaeth yn nes at yr amser*.
- edrych ar wefannau cymdeithasol yr ysgol i gael manylion am ddigwyddiadau a mynychu cymaint ag y gallwch.
- gysylltu â swyddfa'r ysgol 01267 234 829.
- gysylltu â Phennaeth Blwyddyn eich plentyn (Mrs Tracy Jenkins) am unrhyw broblemau.
- edrych ar negeseuon sy'n cael eu rhannu drwy Edulink ac ar e-bost. Bydd gennych fanylion newydd ar gyfer cyfrif ParentPay eich plentyn yn yr ysgol ond os oes gennych blentyn mewn ysgol gynradd neu blentyn yn hŷn ym Mro Myrddin, gellir cyfuno'r cyfan i un cyfrif.

Gofynnwn i chi:

- ddilyn tudalen Facebook ac Instagram yr ysgol.
- gofrestru â ParentPay er mwyn talu am ginio ysgol a theithiau ar gyfer eich plentyn.
- wneud yn siŵr fod yr ysgol yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau cartref a bod manylion cyswllt bob amser yn gyfredol. Gallwch hysbysu'r ysgol o newidiadau ar ffurf llythyr trwy trwy ebost i swyddfa@bromyrddin.org.

## Pam mae presenoldeb cyson yn bwysig?

Mae yr ysgol yn llwyddo i gynnal canran presenoldeb uchel iawn, gyda chefnogaeth a chydweithrediad ein rhieni. Credwn yn gryf mai hwn yw'r ffordd i ddatblygu cyflawniad a hybu llwyddiant academaidd pob disgybl yn yr ysgol.

Gofynnwn i chi felly i:

- beidio trefnu gwyliau neu weithgareddau teuluol yn ystod y tymor. Os oes digwyddiad penodol na ellir ei osgoi, gallwch wneud cais ysgrifenedig i'r Pennaeth yn gofyn am ganiatâd i absenoli eich plentyn o'r ysgol ond ni ellir sicrhau y caiff y cais ei dderbyn;
- beidio gwneud apwyntiadau meddygol, lle y bo modd, yn ystod oriau ysgol. Bydd rhaid gwneud cais ar bapur os yw eich plentyn yn gorfod mynychu apwyntiad o'r fath a bydd angen i'ch plentyn sicrhau bod hwn yn cael ei arwyddo gan aelod o'r Uwch Dîm Arwain.

Os yw eich plentyn yn absennol o'r ysgol oherwydd salwch, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol drwy ffonio neu anfon e-bost yn nodi'r absenoldeb. Os na wneir hyn bydd eich plentyn yn cael ei nodi fel absennol heb ganiatâd.

Gofynnwn i chi atgoffa eich plentyn, os ydynt yn sâl yn ystod y diwrnod ysgol, eu bod yn mynd at y Swyddog Iechyd a Lles a fydd yn cysylltu gyda'r cartref os bydd angen. Dim ond aelod o'r Uwch Dîm Arwain, Pennaeth Blwyddyn neu'r Swyddog Iechyd a Lles sydd yn gallu rhoi caniatâd i'ch plentyn fynd adref os yn sâl. **Nid oes gan ddisgyblion yr hawl i ffonio adref eu hunain er mwyn cael eu casglu o'r ysgol yn ystod y dydd.**

Mae gan yr ysgol Swyddog Cynhwysiant llawn amser ar safle'r ysgol a fydd yn ymdrin ag absenoldebau.

# GWISG YSGOL

Mae Ysgol Bro Myrddin yn ymfalchïo mewn safon gwisg ein disgyblion. Gofynnwn i chi, fel rhieni, i'n cefnogi i gynnal y safonau uchel hyn trwy sicrhau eich bod yn prynu gwisg ysgol i'ch plentyn sydd yn cydymffurfio yn llawn gyda rheolau gwisg yr ysgol ac yn ogystal i annog eich plentyn i barchu ac i ddilyn y rheolau hyn bob amser.

Yr eitemau isod yw'r unig rai sy'n dderbyniol i'r ysgol.

- Sgert ddu blaen hyd y benglin (neu o leiaf 18 modfedd o hyd). Ni chaniateir sgertiau byr, tynn mewn ffabrig ymestyn (stretchy material)
- Trowsus du, steil clasurol. **DIM JÎNS DU NA THROWSUS FLARES NEU FFIT DENAU**
- Siorts du wedi eu teilwra yn yr haf
- Blows / crys lelog swyddogol – llewys hir neu fyr, steil rheolaidd neu wedi'i ffitio
- Tei swyddogol yr ysgol
- Siwmper swyddogol yr ysgol – gwddf V blaen gyda bathodyn yr ysgol wedi ei wnïo i mewn
- Teits trwchus du gyda sgert. Sanau hyd y bigwrn du / gwyn yn yr Haf yn unig (opsiynol)
- Sanau du / gwyn gyda trowsus
- Esgidiau du plaen – ni chaniateir esgidiau ymarfer (trainers) nac esgidiau cynfas
- Cot o liw tywyll ar gyfer gwisgo tu allan
- Ffedog ar gyfer gwers technoleg

# GWISG YMARFER CORFF

**Rhaid i holl eitemau gwisg ymarfer corff eich plentyn fod yn wisg swyddogol yr ysgol.**

- Sgort ddu neu siorts ysgafn (ni chaniateir siorts lycra tynn a byr iawn);
- Siorts rygbi;
- Crys chwaraeon gyda streipen lelog;
- Crys-T gyda streipen lelog;
- Sanau chwaraeon;
- Legins du;
- Crys chwys (opsiynol);
- Cot law (opsiynol);
- Esgidiau ymarfer (trainers);
- Esgidiau hoci/pêl-droed/rygbi;
- Padiau crimog;
- Gorchudd dannedd.

Bydd disgwyl i ddisgyblion newid i wisg Ymarfer Corff/Chwaraeon bob gwers er efallai bod llythyr i'w hesgusodi o weithgareddau'r wers oherwydd rhesymau meddygol.

Rhaid gosod enw ar holl eiddo eich plentyn.

# PRYNU GWISG YSGOL

Mae gwisg yr ysgol ar gael yn y llefydd canlynol;

Cwmni Evans & Wilkins ar gyfer pob eitem o'r wisg. Mae dillad ar gael mewn siopau elusennol yn y dref ar adegau. Mae siopa arlein yn bosiblrwydd e.e. Amazon ar gyfer y crysau, Trutex ar gyfer sgertiau a throwsusau. Gellir prynu siwmperi a sgertiau/trowsusau ysgol o Marks and Spencer a gosod bathodyn ar y siwmper drwy gysylltu â'r cwmniau canlynol;

Calon Custom Clothing – 07873 592 204 / caloncustomclothing@hotmail.com

Schoolwear 4 U – 07756 618 206

Y pris ar gyfer gosod bathodyn ar siwmper ysgol yw rhwng £4 a £5.

Mae modd prynu rhai eitemau hwdi neu grys chwys ¼ zip ar gyfer mis Medi drwy'r wefan ganlynol;
https://www.conquerteamwear.com/clubshop/ysgol-bro-myrddin
Mae'r siop ar agor drwy'r amser ond bydd y ffenestr archebu ar agor yn achlysurol yn ystod y flwyddyn.

# OFFER YSGOL

### Pa offer y bydd angen ar fy mhlentyn?

1. **OFFER YSGOL** – peniau ysgrifennu, pensiliau, pensiliau lliw, cyfrifiannell, pren mesur, onglydd, cwmpawd, glud, naddwr, dilëydd, eich llyfrau dosbarth, bag ysgol **synhwyrol o ran maint** ac ati.
2. **CIT YMARFER CORFF** – Bydd angen cofio'r cit ymarfer corff ar gyfer bob gwers Chwaraeon ac Ymarfer Corff.

# RHEOLAU YSGOL

1. **TLYSAU** – Ni chaniateir tlysau megis modrwyon, breichledau, cadwyni braich, tsaen. O ran clustdlysau caniateir un clustdlws bach aur/arian ym mhob clust. Awgrymwn y dylid tyllu clustiau ar ddechrau gwyliau'r haf yn unig. Rhaid tynnu'r tlysau ar gyfer gwersi chwaraeon ac ymarfer corff. Anodd gwneud hyn os yw'r clustiau newydd eu tyllu. Nid oes hawl gan ddisgybl wisgo clustdlysau mewn unrhyw dylliadau (piercings) eraill. Mae gan aelodau staff yr hawl i ofyn i ddisgybl gael gwared ar y rhain os bydd yn torri'r rheol.
2. **GWALLT** – Ni chaniateir arddulliau gwallt eithafol gan gynnwys eillio rhannau o'r pen neu batrymau i mewn i'r gwallt/aeliau. Dylai lliw y gwallt fod yn naturiol ac unrhyw liwio gwallt i gyd-fynd â'r naturiol hynny. Dylai unrhyw addurn gwallt gydymffurfio â lliwiau'r ysgol sef lelog, llwyd neu ddu.
3. **FFÔN SYMUDOL** – Nid ydym yn caniatáu i ddisgyblion bl.7-11 ddod â ffôn symudol nac offer drud megis iPads a thabledi cyfrifiadurol i'r ysgol. Os yw'n angenrheidiol bod disgybl yn dod â ffôn i'r ysgol yna dylid ei chadw yn swyddfa'r ysgol tan ddiwedd y dydd. Rhaid eich atgoffa na fydd yswiriant yr ysgol yn talu am unrhyw ddifrod na cholled ar safle'r ysgol. Yn yr un modd, os yw'ch plentyn yn dewis gwisgo oriawr ddigidol ddrud i'r ysgol, yna dylech fod yn ymwybodol na fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu ddifrod.
   Mae pob plentyn yn deall bod hawl ganddynt i roi ei ffôn ar ddechrau'r dydd mewn bocs pwrpasol yn y swyddfa ac yna ei chasglu ar ddiwedd y dydd os oes rhaid iddynt gael ei ffôn er mwyn diogelwch ar y ffordd i mewn ac adref o'r ysgol. Mae gennym bolisi o ddim goddefgarwch o ran ffonau symudol. Os bydd ffôn yn cael ei ddarganfod ar eich plentyn ni fyddwn yn dychwelyd y ffôn iddynt nes i chi ddod mewn i gasglu y ffôn yn bersonol o'r ysgol. Gofynnir i chi atgoffa eich plentyn bod modd cadw'r ffôn mewn bocs yn y swyddfa.

# GWYBODAETH BELLACH

### Gweithgareddau cymdeithasol

Trefnir nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn, a disgwylir i bob disgybl gyfrannu hyd at eithaf ei allu. Mae llawer o'r gweithgareddau yn gysylltiedig â mudiad Urdd Gobaith Cymru, felly rydym yn gobeithio y bydd pob disgybl yn ymuno â'r Urdd yn ystod tymor yr Hydref.

### Teithio i'r ysgol

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at Swyddog Trafnidiaeth Ysgolion a Cholegau, Bloc 2, Parc Myrddin, Heol Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ, (Rhif ffôn: 01267 234567).

### Cinio Ysgol

Darperir ciniawau a byrbrydau yn yr ysgol. Gellir prynu cinio llawn am tua £3.00. Mae'r Adran Arlwyo yn gweithio ar gynllun i greu bwydlen 3 wythnos ar gyfer y tymor newydd – bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rannu gyda chi'n nes at yr amser.

Caniateir i blant ddod â brechdanau a'u bwyta yn yr ystafell byrbrydau ond ni chaniateir i blant fynd y tu allan i ffiniau'r ysgol yn ystod yr awr ginio heblaw am amgylchiadau arbennig, a hynny wedi i'r ysgol dderbyn llythyr, e-bost neu alwad ffôn wrth y rhieni.  Mae'r ysgol yn defnyddio'r system ParentPay i'ch galluogi i dalu am ginio eich plentyn. Bydd angen i chi actifadu eich cyfrif cyn gallu dechrau ei ddefnyddio.



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ydych chi'n hawlio'r holl help posib gyda chostau ysgol?

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig help gyda Chinio Ysgol am Ddim a Hanfodion Ysgol fel gwisg ysgol, cit ac offer.

**Sicrhewch eich bod wedi gwirio cymhwysedd eich plentyn** i gael cinio ysgol am ddim.

Os yw eich plentyn yn gymwys am ginio ysgol am ddim neu'n derbyn Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, gall **mwy o help** fod ar gael!

### Os yn gymwys:

- ☑ Gallwch chi gael hyd at **£200 y plentyn** ar gyfer Hanfodion Ysgol
- ☑ Gall eich ysgol gael o leiaf **£1,150 o gyllid ychwanegol**

Chwiliwch am **"Hawliwch Help gyda Chostau Ysgol"**



## HYSBYSIAD PWYSIG

# Prydau Ysgol am Ddim ac Amddiffyniad wrth Pontio

### Beth yw Amddiffyniad wrth Pontio?

Rhoddwyd Amddiffyniad wrth Pontio i bob disgybl a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim rhwng 2019 a diwedd 2023 i'w hamddiffyn yn ystod y newid yn y system fudd-daliadau i Gredyd Cynhwysol.

### A yw eich plentyn yn destun Amddiffyniad wrth Pontio ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim?

Os yw eich plentyn yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd a'i fod yn cael Amddiffyniad wrth Pontio ar gyfer prydau ysgol am ddim, bydd hwn bellach yn dod i ben ac ni fydd eich plentyn/plant yn cael prydau ysgol am ddim mwyach.

### Beth sydd angen i mi wneud?

Os ydych yn credu eich bod yn gymwys i hawlio Prydau Ysgol am Ddim i'ch plentyn/plant, yna gwnewch gais nawr drwy fynd i Brydau Ysgol am Ddim.

## IMPORTANT NOTICE

# Free School Meals and Transitional Protection

### What is Transitional Protection?

Transitional Protection was given to all pupils on free meals between 2019 and the end of 2023 to protect them during the changeover in the benefits system to Universal Credit.

### Is your child Transitionally Protected for Free School Meals?

If you child is moving from Primary to Secondary school education and they are Transitionally Protected on Free School Meals, this will now end and your child/children will no longer get a free school meal.

### What do I need to do?

If you think that you are eligible to claim for Free School Meals for your child /children then apply now by going to Free School Meals.

